Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Dyddiad: | 7 Mehefin 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO, DYDD MERCHER, 14 MEHEFIN 2017** am **9.30 AM** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

## 1 YMDDIHEURIADAU

## 2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

## 3 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/2018.

## 4 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/2018.

## 5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 6 COFNODION (Tudalennau 13 - 22)

Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2017 (copi'n amgaeedig).

## CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 7 - 18) -

## 7 CAIS RHIF 01/2016/0911/PS - PARC CARAFANAU TEITHIOL LLEWENI, PARC LLEWENI, FFORDD YR WYDDGRUG, DINBYCH (Tudalennau 23 - 36)

Ystyried cais i Amrywio amod rhif 3 o Ganiatâd Cynllunio Cyngor Rhanbarth Glyndŵr, cyf. 1/11632 i gynyddu uchafswm y carafannau o 10 i 20 ym Mharc Carafanau Teithiol Lleweni, Parc Lleweni, Ffordd yr Wyddgrug, Dinbych (copi'n amgaeedig).

## 8 CAIS RHIF 01/2017/0171/PF - FORGE COTTAGE, 9 BROOKHOUSE COTTAGES, BROOKHOUSE ROAD, DINBYCH (Tudalennau 37 - 50)

Ystyried cais i godi estyniad ac addasiadau i annedd yn Forge Cottage, 9 Brookhouse Cottages, Brookhouse Road, Dinbych (copi'n amgaeedig).

## 9 CAIS RHIF 01/2017/0235/PF - CYFFORDD FFORDD Y FFAIR, LÔN LLEWELYN, DINBYCH (Tudalennau 51 - 66)

Ystyried cais i osod colofn telathrebu gydag antena wedi'i guddio, 1 lloeren â chysylltiad radio 0.6, 2 gabinet offer ar y llawr a datblygiad cysylltiedig yng nghyffordd Ffordd y Ffair, Lôn Llewelyn, Dinbych (copi'n amgaeedig).

## 10 CAIS RHIF 05/2017/0239/PF - TIR GERLLAW (I'R DWYRAIN) O YSTÂD DDIWYDIANNOL TYN Y LLIDIART (Tudalennau 67 - 100)

I ystyried cais i godi ffatri cynhyrchu bwyd (Dosbarth B2) gyda warws a dosbarthu'n integredig (Dosbarth B8) a chyfleusterau swyddfa (Dosbarth B1); uned lles ategol i weithwyr (Dosbarth D2); mynediad i gerbydau a cherddwyr, maes parcio, mannau i barcio beiciau, gwasanaethu, storio biniau, offer, is-orsaf drydan, gwaith trin pecynnau preifat, tirlunio a gwaith cysylltiedig, ar dir gerllaw (i'r dwyrain) o Ystâd Ddiwydiannol Tyn y Llidiart (copi'n amgaeedig).

## 11 CAIS RHIF 05/2017/0266/PC – SAFLE GWERSYLL YR ORSAF, CARROG, CORWEN (Tudalennau 101 - 114)

Ystyried cais am estyniad i safle gwersylla presennol i ddarparu lleiniau ar gyfer dau bod gwersylla a naw llain ar gyfer carafanau teithiol/pebyll a gwaith cysylltiedig (cais ôl-weithredol), yn Safle Gwersyll yr Orsaf, Carrog, Corwen (copi'n amgaeedig).

**12 CAIS RHIF 11/2016/0324/PF - TIR I'R GOGLEDD O GLOCAENOG, CLOCAENOG, RHUTHUN** (Tudalennau 115 - 140)

Ystyried cais i ddatblygu 0.95 hectar o dir drwy godi ysgol gynradd gymuned newydd gan gynnwys ardaloedd chwarae y tu allan, ardal i fywyd gwyllt, maes parcio gyda man gollwng teithwyr a chreu mynediad newydd i geir, ar dir i'r gogledd o Glocaenog, Clocaenog, Rhuthun (copi'n amgaeedig).

**13 CAIS RHIF 20/2016/1137/PF - TIR I'R GORLLEWIN O FFORDD WRECSAM, LLANFAIR DYFFRYN CLWYD, RHUTHUN** (Tudalennau 141 - 188)

Ystyried cais i godi 63 annedd a mynediad newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig ar dir i'r gorllewin o Ffordd Wrecsam, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun (copi'n amgaeedig).

**14 CAIS RHIF 20/2016/1242/PO – TIR GERLLAW PARADWYS, GRAIGFECHAN, RHUTHUN** (Tudalennau 189 - 208)

Ystyried cais i ddatblygu tir ar gyfer dibenion preswyl, yn cynnwys mynediad (Cais Amlinellol, ar gyfer materion eraill a gadwyd yn ôl), ar dir gerllaw Paradwys, Graigfechan, Rhuthun (copi'n amgaeedig).

**15 CAIS RHIF 21/2017/0045/PF - 4 BRYN ARTRO AVENUE, LLANFERRES** (Tudalennau 209 - 224)

Ystyried cais i godi annedd newydd yn lle'r un presennol, yn 4 Bryn Artro Avenue, Llanferres (copi'n amgaeedig).

**16 CAIS RHIF 23/2017/0256/PS – TIR GERLLAW LLYS GWILYM, LLANRHAEADR, DINBYCH** (Tudalennau 225 - 240)

Ystyried cais i amrywio amodau 2 a 3 caniatâd cynllunio amlinellol cod rhif 23/2014/0375 er mwyn caniatáu 2 flynedd arall ar gyfer cyflwyno cais am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl, ar dir gerllaw Llys Gwilym, Llanrhaeadr, Dinbych (copi'n amgaeedig).

**17 CAIS RHIF 24/2017/0069/PF – BOD YNYS, RHEWL, RHUTHUN** (Tudalennau 241 - 256)

Ystyried cais i adeiladu mynediad newydd i ffarm ym Mod Ynys, Rhewl, Rhuthun (copi'n amgaeedig).

**18 CAIS RHIF 46/2017/0270/PF - TIR YN (RHAN O ARDD) PERTH Y TERFYN, MOUNT ROAD, LLANELWY** (Tudalennau 257 - 272)

Ystyried cais i godi 1 annedd ar wahân ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau ar Dir yn (rhan o ardd) Perth y Terfyn, Mount Road, Llanelwy (copi'n amgaeedig).

**19 CADARNHAD - GORCHYMYN CADW COED CYNGOR SIR DDINBYCH RHIF 01/2017 YN YMWNEUD Â THIR GERLLAW GLASFRYN, GELLIFOR** (Tudalennau 273 - 306)

Ystyried adroddiad yn cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Cyngor Sir Ddinbych rhif 01/2017 yn ymwneud â thir gerllaw Glasfryn, Gellifor (copi'n amgaeedig).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Ellie Chard
Meirick Davies
Peter Arnold Evans
Alan James
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Christine Marston
Bob Murray
Merfyn Parry
Arwel Roberts
Peter Scott
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned